# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

<u>COFNODION</u> Cyfarfod Hybrid y Cyngor, Nos Fawrth 12/12/2023 am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mared Llywelyn Williams (Cad) | Gito Williams | Gruffydd Williams | Arfon Hughes | Gareth Jones |
| Caren Jones | Gwynfor Jones | Rhian Sanson | Pat Humphreys (Clerc) | |

1. **Ymddiheuriadau.**
   Carys Roberts, Lleucu Jones, Alaw Llewelyn Roberts, Catrin Roberts a Rhys Llewelyn.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad personnol.**
   Gareth Jones – eitem 10.

3. **Cofnodion er cywirdeb yn unig**
   Cofnodion Pwyllgor Hybrid 14/11/2023
   Penderfyniad: derbyn yn gywir.
   Cynnig: Rhian Sanson     Eilio: Arfon Hughes

4. **Unrhyw Fater Brys**
   **Gwahoddiad i ddynodi ardal CTN yn 'Ardal o Arwyddocâd Ieithyddol'**
   Derbyniwyd ebost gan Ardaloedd o Arwyddocâd Ieithyddol yn gofyn i CTN ymrwymo i gryfhau'r Gymraeg yn Llŷn drwy arwyddo tystysgrif a gafwyd ganddynt a dynodi ardal CTN hefyd yn Ardal o Arwyddocâd Ieithyddol.
   Penderfyniad: Pasiwyd i ddynodi ardal CTN yn Ardal o Arwyddocâd Ieithyddol ac arwyddo'r dystysgrif.
   Cynnig: Gruffydd Williams     Eilio: Gareth Jones
   **Gwresogydd cludadwy i Siop Siarad –** Arfon Hughes
   Nid yw'r gwresogyddion sydd yn Siop Siarad yn cynhesu yr ystafell ddigon er eu bod yn cael eu rhoi ymlaen awr cyn y cyfarfodydd felly cafwyd cynnig gan un o'r aelodau i gael gwresogyddion cludadwy sydd yn rhad ofnadwy i'w rhedeg ac yn cynhesu yn dda iawn ac mae modd eu symud o gwmpas y socedi trydan.
   Penderfyniad: pasiwyd i'r aelod archebu'r gwresogyddion ac fe wnaiff y clerc drefnu ad-daliad yn y pwyllgor nesaf.
   Cynnig: Mared Llywelyn Williams     Eilio: Gwynfor Jones
   **Groins ar draeth Morfa a ffens yn Whitehall Porthdinllaen –** Gito Williams a Gruffydd Williams
   Nid yw'r groins wedi cael eu trwsio ar draeth Morfa er bod y clerc wedi anfon ebost i Cyngor Gwynedd a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ers mis Chwefror eleni. Mae un o'r aelodau wedi sylwi hefyd fod yna ffens (morglawdd) 4 troedfedd o uchder wedi ei gosod y tu ôl i Whitehall Porthdinllaen o dan y bwa sy'n rhwystro cerddedwyr i gerdded llwybr yr arfordir ar adeg penllanw ac felly yn cau yr hawl tramwy.
   Penderfyniad: y clerc i anfon ebost i Dewi Wyn Owen a Rhys Gwyn Roberts Cyngor Gwynedd ynglyn a'r morglawdd yn Whitehall ac anfon ebost i'r adran forwrol ynglyn a'r groins eto a rhoi copi o ebost yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol iddynt.

5. **Cyllideb 2024-2025**
   Cafwyd cyfarfod o'r is-bwyllgor ariannol yr wythnos ddiwethaf ble y trafodwyd codiad cyflog y clerc yn seiliedig ar y costau o redeg swyddfa o adref dros y ddau fis diwethaf. Mae swm wedi cael ei basio ac wedi cael ei ychwanegu i'r gyllideb er mwyn pennu praesept. Mae'r clerc wedi anfon y gyllideb i'r aelodau ac mae bawb yn fodlon hefo'r ffigyrau a'r swm sydd wedi ei basio ar gyfer y praesept.
   Penderfyniad: derbyniwyd y gyllideb ac awgrymu praesept o £90,000.00.
   Cynnig: Mared Llywelyn Williams Eilio: Gruffydd Williams

6. **Amcanbris arwyddion 'FFordd ar Gau' –** Clerc
   Mae'r clerc wedi cael amcanbris am arwydd 'Ffordd ar Gau' ar gyfer y flwyddyn nesaf er mwyn cau y ffyrdd adeg Sul y Cofio â'r Nadolig.
   Penderfyniad: derbyn yr amcanbris ac archebu 4 arwydd.
   Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Gwynfor Jones

7. **Sedd Wag – Diweddariad –** Clerc
   Derbyniwyd ebost gan Cyngor Gwynedd yn dilyn y dyddiad cau ar gyfer yr hysbyseb cyntaf yn cadarnhau nad oes ymateb wedi ei dderbyn gan y cyhoedd felly mae'n rhaid rhoi yr ail hysbyseb i fyny sef hysbysiad o gyfethol hefo dyddiad cau o 29ain Rhagfyr 2023 ac mae'r clerc am drefnu hyn a rhoi mater ar agenda pwyllgor Ionawr 2024.

8. **Arwydd parcio Lôn Gam – Diweddariad –** Clerc
   Cafwyd diweddariad gan y clerc ar ol iddi gysylltu hefo Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd a penderfynwyd i ystyried y wybodaeth sydd wedi ei dderbyn ganddynt a'i roi ar agenda mis Ionawr.

9. **Gor-amser y Clerc am drefnu y coed nadolig a'r gwasanaethau goleuo –** Clerc
   Mae'r clerc wedi gwneud cofnod o'r oriau ychwanegol i drefnu y coed nadolig a'r gwasanaethau goleuo fel a ofynwyd iddi yn y pwyllgor diwethaf.
   Penderfyniad: talu'r clerc am yr oriau ychwanegol yn ei chyflog mis nesaf.
   Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Gwynfor Jones

10. **Gohebiaeth a Dderbyniwyd**
    - **Ebost y Cynghorydd Rhys Tudur –** cais am gefnogaeth i warchod y Gymraeg yn ein hysgolion.
      Penderfyniad: pasiwyd i gefnogi'r cais a gyrru'r llythyr sydd wedi ei baratoi ganddo at y Pennaeth Addysg.
      Cynnig: Mared Llywelyn Williams Eilio: Gruffydd Williams

11. **Ceisiadau Cynllunio**
    **C23/0943/42/DT** – Hirwaen, Ffordd Cae Rhug, Nefyn – cais i godi estyniad deulawr ochr.
    Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad
    Cynnig: Mared Llywelyn Williams Eilio: Arfon Hughes

    Ceisiadau Diweddarach
    Dim.

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com

**12. Taliadau i'w gwneud**

**Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:**

- Cyflog y Clerc – £1301.24 (taliad BACS)
- Designer Signs – Arwydd 'Dim Parcio' - £116.40
- Cyngor Gwynedd – Bin gwyrdd y Llyfrgell 11/12/23 – 31/03/24 - £48.00
- Nefyn Foods Ltd - rent Siop Siarad - £780.00
- Ashley Hughes – offer swyddfa - £24.00
- D M Parry – pedwerydd taliad fynwent Nefyn - £990.00
- HMRC – PAYE Mis 8 - £363.00
- Alan Adams – taliad 9 cytundeb llwybrau - £1190.00
- E.On Next – trydan Llyfrgell mis Tachwedd - £188.86
- Archwilio Cymru –archwiliad allanol 2017 – 2021 - £800.00
- Christmas Tree Supplies – 3 coeden nadolig a cludiant - £1422.00

Penderfyniad: Talu pob anfoneb.
Cynnig: Gareth Jones    Eilio: Rhian Sanson

**13. Taliadau wedi eu derbyn**

- Clwb Golff Nefyn – coeden nadolig Morfa Nefyn - £50.00
- Celtic Heritage Construction & Stonemasonry Ltd – coeden nadolig Morfa Nefyn - £100.00
- Kelly's Driving School – coeden nadolig Morfa Nefyn - £25.00
- Ashley Hughes – coeden nadolig Nefyn - £145.00
- Siop Gwyneth – coeden nadolig Morfa Nefyn - £20.00
- Tŷ Cod – coeden nadolig Morfa Nefyn - £20.00
- Elfed Roberts Spar Nefyn – coeden nadolig Nefyn - £145.00
- Bryn Noddfa – coeden nadolig Morfa Nefyn - £20.00

Diolchodd y cadeirydd i bawb a fu'n gwirfoddoli noson gwasanaeth goleuo coeden nadolig Nefyn.

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com